CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.
CYFARFOD MISOL 28ain O FAI 2009 AM 7.30PM
NEUADD YR EGLWYS, LLANBEDR P.S.

YN BRESENNOL

Cyng Maer Selwyn Walters (Cadeirydd);
Cyng. Robert Phillips (Is-Gadeirydd);
Cyng. Cecilia Barton; Andrew Carter; Elsie Dafis;
John Davies; Margaret Davies-Evans;
Greg Evans; Lynda Mason-George;
Kistiah Ramaya;
Chris Thomas &. Derek Wilson
Cyng. Tref & Sirol Robert (Hag) Harris.
Cyng. Sirol Ifor Williams
Aelod o'r Cyhoedd Elizabeth James
Michelle Rosser: Swyddog Prosiect Gwerth Gwybodaeth Shelter Cymru

1. CROESO'R CADEIRYDD

Croesawodd y Maer Selwyn Walters pawb i'r Cyfarfod.
Cyn dechrau'r Cyfarfod llawn derbyniwyd anerchiad gan Michelle Rosser *Swyddog Prosiect Gwerth Gwybodaeth Shelter Cymru.* Ariennir *Shelter Cymru* gan y Gronfa Loteri Fawr ac y mae'n ymroi i helpu pobl mewn cymunedau gwledig sy'n dioddef anawsterau tai a chyllid, tlodi ac unigedd gwledig yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Dosbarthwyd adnodd yn dwyn y teitl *Gwerth Gwybodaeth i Gymunedau Gwledig* i aelodau. Dylai fod o gymorth i bobl drwy godi eu hymwybyddiaeth o'u hawliau a gwella ansawdd eu bywydau. Mae'n rhoi gwybodaeth ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud â thai, dyled, budd-dal lles a lles gwledig y gall rhai defnyddwyr eu profi. Siarsiwyd ar aelodau i drosglwyddo gwybodaeth allweddol i bobl agored i niwed sy'n dod ar draws problemau tai neu sydd mewn perygl o golli eu cartrefi. Nid yw *Shelter Cymru*, beth bynnag, yn darparu llety ar gyfer y di-gartref. Gellir defnyddio'r adnodd i ddarparu gwybodaeth sylfaenol yn ogystal ag arweiniad o ran pryd a ble y dylid cael cyngor arbenigol. Gellir ei lawrlwytho o'u safle ar y we megis www.sheltercymru.org.uk.
Holwyd paham y cafodd y gwasanaeth ei ddileu yn Llanbedr Pont Steffan a tybed a fyddai'n bosibl i'w ail gychwyn yn ystod y dyfodol. Cynhaliwyd cymorthfeydd yn Eglwys San Thomas yn y gorffennol. Cytunodd y *Swyddog Prosiect Gwerth Gwybodaeth Shelter Cymru* i glustnodi sylw pellach i'r mater ac i adrodd nôl i'r Cyngor Tref.

2. YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL

2.1 Ymddiheurodd y Gyng. Dorothy Williams am fethu â bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2.2 Hefyd ymddiheurodd Arolygydd yr Heddlu Nicola Carter am ei habsenoldeb hithau.

2.3 Datganwyd llongyfarchion i'r Cyng Ifor Williams ar ei statws newydd o fewn y Cyngor Sir. Cafodd ei ddyrchafu i fod yn Gadeirydd Cyngor Sir Ceredigion am y flwyddyn fwrdeistrefol 2009-10.

2.4 Penderfynwyd ar drefniant arall yn ymwneud ag amser cychwyn cyfarfodydd y Cyngor Tref. Os bydd y cyfarfod yn cynnwys siaradwr gwadd, bydd yn dechrau am 7.00pm.

2.5 Atgyfnerthodd y Maer canllawiau'n ymwneud â'r ddull o weithredu'r Cyngor Tref mewn cais i wella ansawdd trefniant arferol y cyfarfodydd. Rhaid i

Gynghorwyr dderbyn caniatâd y Cadeirydd cyn siarad ac nid oes gan eraill yr hawl i dorri ar daws y siaradwr. Bydd y Maer yn gweithredu'r hawl i roi terfyn ar siaradwyr dibendraw neu os byddant yn crwydro oddi ar y mater dan sylw. Dylai hyn hybu ac nid ffrwyno trafodaeth.

3. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL

Dim.

4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

4.1 Derbyniwyd llythyr gan Arolygydd yr Heddlu Nicola Carter yn mynegi ei bod wedi ei phenodi'n ddiweddar yn Arolygydd Plismona Bro dros Adran Aberaeron a Llambed. Mae ei swyddfa barhaol yn Llanbed, fodd bynnag, treulia ei hamser yn y ddwy orsaf. Dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at fod yn gyfrifol am blismona yn yr ardal, sy'n dal i fod yn un o'r ardaloedd diogelaf i fyw, gweithio ac ymweld â hi yn y Deyrnas Unedig.
Manylion Cyswllt: Nicola.carter@dyfed-powys.pnn.police.uk neu ar ffôn symudol 07966648857.

4.2 Ardal Gwahardd Alcohol (AGA):

Mae'r cais ar y cyd rhwng yr Heddlu a Chyngor y Dref ar gyfer ardaloedd di-alcohol ar Sgwâr Harford, Parc-yr-orsedd, a'r 4 ffordd i fewn i'r dref yn derbyn ystyriaeth ar hyn o bryd gan GSC. Gofynnodd y Cyng. Carter petai'r cysgodfannau bws yn cael eu cynnwys o fewn yr Ardal a mynegwyd y byddent yn ffurfio rhan o'r cais. Cyfathrebodd Elin Prysor, Cyfreithwraig, CSC bod y cais yn mynd yn ei flaen. Bydd yn cyfarfod â'r Arolygydd Carter ar y 10fed neu'r 11fed o Fehefin a gobeithir y bydd yr *Ymgynghoriad Ffurfiol* yn mynd yn ei flaen yn fuan ar ôl hynny. Bydd *Ymgynghoriad Ffurfiol* yn golygu gosod hysbyseb yn y Wasg Lleol o fwriad Cyngor Sir Ceredigion i ystyried y Gorchymyn. Dyma'r cam cyntaf. Bydd y mater ar ôl hynny'n cael ei ganiatau, neu ei wrthod gan y Cyngor Sir. Os caiff ei ganiatau bydd angen ail-hysbyseb sef Rhybudd Cyhoeddus o'r Gorchymyn. Unwaith y bydd y Gorchymyn yn barod i'w weithredu codir arwyddion. Mae costau uchel i'w hystyried gan y Cyngor Sir pan yn rhoi sylw ac yn dod â'r Gorchymyn i fodolaeth (os caniateir). Mae cynigiad y CT i gwrdd â 50% o'r gost ar gyfer Ardal Gwahardd-Alcohol i Lanbed i fyny at uchafswm o £2,500 (boed i'r gost ar gyfer Ardal Gwahardd Alcohol ym 2005 ar gyfer Aberystwyth fod yn £5,000) wedi ei drafod a'i nodi mewn cyfarfod y *Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion* ar y 9fed o Ebrill 2009.

Penderfynwyd gofyn am amserlen penodol ynglŷn â'r:

- Ymgynghoriad Ffurfiol: gosod hysbyseb yn y Wasg Lleol o fwriad y Cyngor Sir i ystyried y Gorchymyn;
- Ystyriaeth gan GSC;
- Caniatâd/Gwrthodiad gan GSC, gosod ail-hysbyseb sef Rhybudd Cyhoeddus o'r Gorchymyn yn y Wasg Lleol (os caniateir);
- Amser pan fydd yn debygol fod y Gorchymyn yn barod i'w weithredu; &
- Gosod yr arwyddion mewn lle.

Mae'r Ardal Gwahardd Alcohol wedi bod yn bwnc trafod gan y Cyngor Tref dros ystod o 3 blynedd ac yr oedd rhai aelodau wedi gobeithio y byddai wedi ei ffurfio ar gyfer tymor prysur yr haf eleni.

5. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 30AIN O FIS EBRILL 2009

Derbyniwyd cofnodion Mis Ebrill fel rhai cywir arwahân i'r canlynol:

5.1 **Pwynt 8.1**: Y mae enw'r Cyng. Greg Evans yn ymddangos 2 waith. Dylai ymddangos ond unwaith ac yn ystod yr eildro dylai'r enw Cyng. Selwyn Walters ymddangos.

5.2 **Cais Cynllunio: A080489LB:** Lleoliad: *Tŷ Eglwys San Pedr* ac nid *Eglwys San Pedr.*

6. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION BLAENOROL

6.1 **Canlyniad cais am gymhorthdal Y Drindod Dewi Sant:** Roedd penderfyniad ynglŷn â'r £18miliwn o gyllideb o'r *Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio* sy'n allweddol ar gyfer sicrhau llwyddiant y fenter fod wedi ei wneud gan y Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar yr 8fed o Fai 2009. Anfonwyd llythyr gan y CT at GCAUC i roi pwysau ar y Corff i gytuno i'r cais am gymhorthdal. Nid oedd ateb i'r llythyr wedi ei dderbyn arwahan i gydnabyddiaeth. Anfonwyd copi at Elin Jones AC sy'n gwbl gefnogol i'r cynlluniau arfaethedig.
Roedd y Maer wedi derbyn llythyr gan un o drigolion Glannau Mersi yn mynegi ei siom nad oedd enw'r brifysgol newydd yn cynnwys y gair Llanbed/Llanbedr PS.
Nodwyd fod y Dr Medwin Hughes wedi ei apwyntio'n Is-Ganghellor Coleg y Brifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan.

6.2 **Hysbysfwrdd sydd wedi ei fandaleiddio ger llyfrgell y dref:** yng nghyfarfod Mis Mawrth adroddodd y Maer ar y pryd, ei fwriad i atgyweirio'r hysbysfwrdd yn ystod y dyfodol agos – heb ei gyflawni. Penderfynwyd mewn cyfarfod blaenorol na fyddai'r drysau gwydr yn cael eu hail-osod. Adroddodd y Clerc bod nifer o bosteri yr arddangoswyd dan law'r Cyngor Tref wedi eu tynnu i ffwrdd gan aelodau'r cyhoedd, cyn yr amser penodedig ee Hysbyseb yr Etholiadau Ewropeaidd o'r 4ydd o Fehefin; Cais am amcanbris ar gyfer Cynnal a Chadw'r Llwybrau Cerdded dros fisoedd yr haf (Fersiwn Cymraeg) a manylion Cyswllt Elin Jones AC. I ail-ystyried y sefyllfa mewn mis.

6.3 **Cynllun Diogelwch a Chymunedol Ceredigion 2008-11: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion**: - wedi gorffen â'r dogfennau. Maent wedi derbyn sylw gan y mwyafrif o aelodau.

6.4 **Bin Ail-gylchu ar gyfer y dref:** Rhaid nodi lleoliad cywir y biniau cyn y gall y Cyd-lynydd *Trefi Taclus* Rachel Mills fod mewn syfyllfa i archebu'r biniau ac i symud y mater yn ei flaen. Mae manylion y bin wedi eu cyflwyno eisoes i'r Cyngor Sir. Clustnodwyd grym sylw i leoliad y biniau yn ystod y gorffennol ee ym Mharc-yr-Orsedd a rhwng Siop Gwilym Price a Siop *Spar*, (bydd angen trwydded gan y Cyngor Sir ar gyfer lleoli'r bin ar eu tir hwy). Pendefynwyd ceisio mannau eraill canolog yn y dref ar gyfer y biniau, nad oedd yn eiddo'r Cyngor Sir, erbyn y cyfarfod nesaf. Mae LAS Ailgylchu wedi cynnig gwacau'r biniau'n rhad ac am ddim yn ystod y 6 wythnos cyntaf.

6.5 **Cael gwared â'r graffiti ar hen bont y Rheilffordd: mae perchnogion** y bont rheilffordd wedi rhoi caniatâd ar lafar i gael gwared â'r graffiti. Ystyriwyd obligidau iechyd a diogelwch a daethpwyd i'r casgliad na fyddai'n ymarferol i'r Cyngor Tref ymgymryd â'r gwaith. Mynegodd y perchnogion yn ogystal â chael gwared â graffiti presennol, gallai ei gyfnewid am raffiti "a drefnwyd" at fwynhâd y rhai a fydd yn ei weld. Byddai syniadau celf yn cael eu hystyried gan Gynghorwyr, yn ystod y dyfodol.

6.6 **Cae Maesyderi:** mae prydles 3 blynedd rhwng y Cyngor Sir a'r Cyngor Tref wedi ei threfnu erbyn hyn, ac wedi dechrau ar y 13eg o Ebrill 2009. Cytunwyd i drefnu Is-bwyllgor i gynnwys aelodau'r Cyngor Tref, y Cyngor Sir, trigolion sy'n byw yn agos i'r Cae a chynrychiolwyr o

glybiau Chwaraeon o fewn y dref. Ceisiwyd cyfarfod ar gyfer Ddydd Mercher y 3ydd o Fehefin. (Cofnodion ynghlwm). Adroddodd y Cyng. Evans ei fod ef a Mr John Dalton wedi torri'r gwair y dydd Sadwrn cynt. I anfon llythyr o ddiolch at Mr John Dalton.

6.7 **Parc-yr-O rsedd:** archebwyd 5 o feinciau newydd ar gyfer y parc d/l y Cynllun Trefi Taclus: yn dal i ddisgwyl amdanynt.

6.8 **Seddau ar gyfer y Swyddfa'r Post**, Llanbedr PS: i atgofio Rheolwr yr Archfarchand Co-op o'r Cais.

6.9 **Newid Enw Lle – King George V Green i Parc St. Germain-sur-Moine**,: Mae cytundeb wedi ei wneud mewn egwyddor gan y Cyngor Sir i newid enw'r lle ac i godi'r arwydd. Bydd rhaid cytuno ar y maint/lliw yr arwydd cyn symud ymlaen. Ceisiodd y Maer gysylltu â Katy Spain CSC i drafod y mater ond ofer oedd yr ymgais gan ei bod i ffwrdd ar ei gwyliau.

6.10 **Llythyr gan Mr Jamie McCormack Turner 2 Glyndŵr, Teras-yr-Orsaf,** Llanbedr PS, SA48 7HB (3/12/2008) yn dweud ei fod yn derbyn anawsterau pan fydd yn cesio derbyn nwyddau/parseli ac ati i'w gyfeiriad ac yn gofyn am y ddarpariaeth o arwydd stryd ar gyfer y 5 Tŷ Teras. Awgrymodd 1-5 Glyndwr. Adroddodd Kay Hughes CSC fod y mater yn derbyn sylw ar y 26/03/2009. Boed i'r Clerc atgofio Mr Lyndon Griffiths ar y 30ain Ebrill ac iddi gysylltu ag ef unwaith yn rhagor ar y 28ain o Fai. Dywedodd, gan amlaf, mai'r Cyngor Sir ond yn codi arwyddion ar strydoedd, neu ar deras sydd wedi eu cydnabod fel rhan o'r Briffordd. Cytunodd i glustnodi sylw pellach i'r mater ac i adrodd yn ôl i'r Cyngor Tref.

6.11 **Cyngor ar Bopeth:** parthed cais y CT am gyflwyniad. Yn disgwyl clywed oddi wrthynt.

6.12 **Gofynnwyd i GSC** petai'n bosibl i'r Heol Un-Ffordd Mountwalk gael ei throsi i ganiatau cerddwyr yn unig am resymau diogelwch. Adroddwyd fod cyfarfod safle wedi cymryd lle ar Ddydd Gwener 3ydd o Ebrill am 9.00am rhwng cynrychiolaeth y CT a Rachel Thomas CSC. Cytunwyd gofyn am adborth. Ystyriwyd lleoedd "peryglus" eraill megis Heol y Porthmyn; Stryd San Thomas, Stryd y Coleg a Lôn Picton. I atgofio'r Cyngor Sir fod y Cyngor Tref yn dal i ofidio'n ddirfawr am ddiogelwch traffig yn Lôn Picton.

6.13 **Cŵn yn Baeddu:** archebwyd 100 o daflenni dan law'r Cyngor Sir. Mae'r taflenni'n cael eu hail-argraffu ar hyn o bryd.

6.14 **Dewch i Grwydro'r Senedd**: gwahoddiad oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol i ymweld â'r Senedd – teithiau, bob dydd am ddim i grwpiau hyd at 50 – ei adael ar y bwrdd ac i drafod ymhellach mewn cyfarfod y dyfodol.

7. GOHEBIAETH

7.1 **Cynulliad Cenedlaethol Cymru**: **Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau a Phenderfyniadau Gwaredu) Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1 Ebrill 2009**

Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 wedi cwblhau ei drafodaethau ar y Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) yn ddiweddar. Diolchodd Rosemary Butler AC Cadeirydd, i'r Cyngor Tref am gyfrannu at waith y Pwyllgor, ac er gwybodaeth amgaeodd gopi o adroddiad y Pwyllgor a osodwyd gerbron y Cynulliad ar y 29ain o Ebrill 2009: er gwybodaeth.

7.2 **Ymgynghoriad ar newid gofod awyr i sefydlu gofod awyr arwhân ar gyfer amgylchedd systemau awyrennau di-griw Cymru**

Byddant yn cyflawni'r gwaith sy'n cael ei wneud yn arferol gan y peilot â chyfrifiaduron wrth law. Cânt eu defnyddio ar gyfer ymarferion casglu gwybodaeth. Rhesymau ar gyfer newid: i gefnogi a gwella arbrofi am lu awyr yn Aberporth ac y mae ei angen ar gyfer datblygu systemau di-griw. Y Cyng. Carter oedd y derbynnydd cyntaf y ddogfen ac fe'i grybwyllwyd i'w drosglwyddo at sylw Gynghorydd arall, cyn gynted â fo'n bosibl.

7.3 Bwrdd yr Iaith: Dweud eich dweud am wasanaeth Cymraeg Dosbarthwyd rhwng aelodau.

7.4 Hysbysiad am Gynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru: Enwebwyd y Maer a'r Cyng. D.Williams i fynychu'r Cyfarfod ym Mhafiliwn y Bont Ddydd Sadwrn y 10fed o Hydref.

7.5 Partneriaeth Pobl Ifanc Ceredigion: cyfarfod 17/07/2009 – Gwahoddiad i ddau aelod o'r CT i'r Cyfarfod a cyfle i gynnig eitem ar yr agenda. Enwebwyd y Cyng. Ramaya/Dafis a Mason-George i fynychu'r Cyfarfod. Byddai cwestiwn yn cael ei gyflwyno ar gyfer yr Agenda maes o law.

7.6 Cysylltiad â'r Henoed Yng Nghymru: Elusen: Liz Morgan Swyddog Datblygu Rhanbarthol, y Trallwng, yn gobeithio dechrau grŵp yn Llanbed a holwyd tybed a fyddai'n bosibl iddi arddangos gwybodaeth ar fyrddau arddangos mewn digwyddiadau a gynhelir yn Llanbed. Cytunwyd i'w chyfeirio at ddigwyddiadau tymor yr haf yn Llanbed. Adroddwyd fod y CT yn barod yn chwarae rhan allweddol yn y Gymdeithas *Ieuanc mewn Ysbryd* a drefnwyd gan y Gyng. D.Williams. Mae *Cysylltiad â'r Henoed* yn elusen genedlaethol sy'n helpu i leddfu unigrwydd ac arwahanrwydd pobl mewn oed sy'n byw ar eu pen eu hunain. Mae gwesteiwyr gwirfoddol yn croesawu grŵp o henoed i'w cartrefi unwaith neu ddwy mewn blwyddyn ar brynhawn Sul; y cwbl sydd angen yw calon gynnes, tŷ bach i lawr y grisiau a thebot mawr! (Ffôn 0800716 543)

7.7 Rheoli Diogelwch Cofebau Claddfeydd – Cyngor ymarferol ar gyfer ymdrin â chofebion ansefydlog: Llywodraeth Cynilliad Cymru: er gwybodaeth.

7.8 Gohebiaeth Eraill: er gwybodaeth yn unig.

8. Menter Llambed

Adroddodd y Cyng. Greg Evans

8.1 Bydd Transition Llambed yn dangos Ffilm yn ymwneud â newid hinsawdd ar y 30/05/2009 yn y Brifysgol Llanbedr PS – sef *The Age of Stupid* ac yn cynnwys prif ran gan yr actor Pete Postlethwaite - Croeso Cynnes i Bawb.

Ar ôl y ffilm bydd Elin Jones AC a'r Cyng. Rob Phillips o dan gyfarwyddid y Cyng. Greg Evans, ym ateb cwestiynau yn ymwneud â materion yr amgylchedd.

8.2 Wythnos Yn Ymwneud â'r Gwynt: 13-21 o Fehefin. Gwybodaeth pellach-gellir ymweld a'r wefan www.embracewind.com.

9. CEISIADAU CYNLLUNIO

9.1 Mae'r cais canlynol wedi ei ganiatau gan Gyngor Sir Ceredigion

Dyddiad yr hysbyswyd gan y Cyngor Sir	Ymgeisydd a'r bwriad	Lleoliad
29/04/2009	J & E Woodworks Adeiladu gweithdy	J & E Woodworks Barley Mow

9.2 **Cais Cynllunio**: Codi estyniad o'r cefn a'r ochr, i greu ystafelloedd newydd ar gyfer ymgynghori a thriniaeth; Milfeddygon Steffan, 5 Stryd Fawr, Llanbedr PS. Rhif y Cais: A090338: dyddiad ar frig y llythyr oddi wrth y Cyngor Sir: 14eg o Fai 2009.
Sylwadau'r Cyngor Tref: Yn gefnogol i'r Cais.

9.3 **Cais Cynllunio:** Codi estyniad a ffrynt newydd i'r siop. Archfarchnad Sainsbury, Stryd y Farchnad, Llanbedr PS. Rhif y Cais: A090322. Dyddiad ar frig y llythyr oddi wrth y Cyngor Sir: 11eg o Fai 2009.
Sylwadau'r Cyngor Tref: Dim gwrthwynebiad i'r Cais.

9.4 **Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC:** Agenda13 Mai a Chofnodion 8fed o Ebrill: er gwybodaeth.

9.5 **Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin:** mae pedwar Papur Pwnc Cefndir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol wedi cael eu cyhoeddi at ddibenion ymgynghori fel rhan o lunio Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin. Gellir eu lawrlwytho ar Wefan Gorfforaethol yr Awdurdod www.sirgar.gov.uk. Gellir cael copïau papur gan yr Adain Flaen-gynllunio ar gais.

9.6 **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref:** Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ddatblygu Gyffredinol) 1995 Erthygl 13 Hysbysu Cynghorau Cymuned: Yn dilyn y llythyr dyddiedig Chwefror 9fed yn hysbysu Cynghorau Tref a Chymuned o'r bwriad i gyflwyno rheol 14 diwrnod ar gyfer ymateb i geisiadau, bydd y Cyngor Sir yn dechrau gweithredu'r rheol yma ar Fehefin 1af 2009. Os na fydd y Cyngor Sir wedi derbyn ymateb o fewn cyfnod o 14 diwrnod o'r dyddiad y bu iddynt hysbysu'r Cyngor Cymuned ar frig y llythyr ymgynghorol, bydd yr awdurdod yn gweithredu ei hawl i benderfynu ar y cais. Dirprwyo pwerau i'r Cadeirydd, Is-Gadeirydd a'r Clerc i weithredu'r cynllun petai'r cais yn codi rhwng cyfarfodydd ar gyfer ceisiadau cyffredin. Am geisiadau pwysig caiff is-bwyllgor ei drefnu i drafod y cais.

10. CYLLID

10.1 **Llythyr o ddiolch oddi wrth Bwyllgor Apêl Llanbed Eisteddfod yr Urdd 2010** am y rhodd diweddar o £500 ac o **Gangen yr Urdd Llanbedr PS** am y rhodd o £250**.**

10.2 **Penderfynwyd i beidio** â chyfrannu at gostau cychwynnol -*Y Groes Goch Prosiect Gweithwyr Maes.*

10.3 **Grant Trefi Taclus CSC:** ar gyfer y ffens newydd ei osod, Parc-yr-orsedd: £1,950: Incwm.

10.4 **Cyflog y Clerc** (Mai) £498.90

10.5 **Golau/Gwres/Storio**: £20.00

10.6 **Treth Incwm a Chyfraniadau YC**: £73.00

10.7 **AAA Canolfan Addurno £86.75:** Paint ar gyfer y gât ar fynedfa ar ochr Parc-yr-Orsedd.

10.8 **Cynhadledd Un Llais Cymru 2009:** Y Maer a'r Gyng D.Williams: £120

10.9 **Ad-daliad o £100 o'r** Cyllid a Thollau EM ar gyfer y CT gan fod y Clerc wedi cyflwyno eu thaliadau treth ac yswiriant cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2008-09 ar-lein.

10.10 **Playworld Systems**: Cyflenwyr yr Offer Cadw'n Heini ym Mharc-yr-orsedd: cyfraniad o £50.00 ar gyfer y Lansiad o'r 28ain Ebrill 2009.

10.11 **Y mae £40,000** wedi ei osod mewn cyfrif y Banc Barclays am 6 mis: llog sefydlog o 1.35%. Y Cyng. Walters a Ramaya sydd â'r hawl i lofnodi seiciau ac ati ar ran y Cyngor Tref.

10.12 **Cyfrif Premier Abertawe**; mae'r raddfa llog wedi ei ostwng o 1.75% i 1.15% oherwydd gostyngiad yn y Raddfa Sylfaen i 0.5% ym Mawrth 2009.

10.13 **Lwfans y Maer**: Gofynnodd y Maer am eglurhâd yn ymwneud â'r Polisi. Penderfynwyd yn yr Adroddiad Cyllid Ionawr 2009 i gynnwys codiad o 3% o fewn y gyllideb ar holl gostau (ee Hurio Neuaddau, Yswiriant, Tanysgrifiadau Blynyddol) y Cyngor Tref ar gyfer y flwyddyn 2009-10. Mae'r Polisi yn golygu bod Lwfans y Maer yn ffurfio ran o'r codiadau yr holl gostau. Mae Lwfans y Maer wedi cynyddu'n raddol dros ystod o flynyddoedd yn ddilynol megis:

Blwyddyn Fwrdreistrefol	**Derbyniodd y Maer ar y pryd:**
2002-03	**£2,400**
2003-04	**£2,400**
2004-05	**£2,200** – 11 mis oherwydd Etholiad + **£200** tâl ychwanegol i'r Maer blaenorol gan ei fod wedi gwasanaethu am un mis yn ychwanegol.
2005-06	**£2,400**
2006-07	£2,400 + 2.9% o gynnydd fel yr awgrymwyd yn ystod y Cyfarfod Cyllid Ionawr 2006 (2.9% o gynnydd ar yr holl gostau oherwydd chwyddiant) **£2,470** ac fel y crybwyllwyd gan y Gadeiryddes ar y pryd.
2007-08	**£2,532** (gan gynnwys cynnydd o 2.5% 2007) fel yr awgrymwyd yn ystod y Cyfarfod Cyllid Ionawr 2007.
2008-09	**£2,587.70** (gan gynnwys cynnydd o 2.2%). fel yr awgrymwyd yn ystod y Cyfarfod Cyllid Ionawr 2008. Penderfynwyd i dalu'r lwfans ar gyfer y 12 mis ar gyfer y Maer presennol er mai 11 mis fyddai tymor ei wasanaeth. Dywedwyd, ar y pryd mai'r costau cychwynnol ee Cinio Seremoni Urddo'r Maer oedd y prif gostau. + £215.64 ychwanegol i'r Maer blaenorol gan ei fod wedi gwasanaethu am un mis yn ychwanegol gan fod Etholiad wedi ei gynnal ym Mai 2008.
2009-10	£2,587 + 3% o gynnydd fel y crybwyllwyd yn ystod y drafodaeth y Cyfarfod Cyllid Ionawr 2009. **£2,665**

Penderfynwyd clustnodi'r cynnydd o 3% ar gyfer y Maer presennol. Penderfynwyd, yn ystod y dyfodol y byddai codiad posibl yn Lwfans y Maer, yn cael ei drafod fel eitem arwahân, yn ystod y Cyfarfod Cyllid ac nid yn cael ei gynnwys yn awtomatig gyda gweddill y costau, er mwyn penderfynu os oes angen codiad a'i peidio.

11. IS-BWYLLGORAU

11.1

11.1.1 Llwybrau Ceredded gan gynnwys Parc-yr-Orsedd

Soniodd y Cyng. Carter am y gwelliannau arfaethedig i lwybrau cerdded o dan y *Grant Cynllun Llwybrau Cymunedol CSC* 2009-10. Bydd cyfanswm o £600 yn cael ei glustnodi sef £487.50 dan law'r Cyngor Sir a £162.50 o Gronfa'r Cyngor Tref (Grant o 75%). Bydd Cymdeithas y Cerddwyr yn ymgymryd â gwellianau hefyd. Bydd mynedfa newydd gât yn cael ei godi at Lyn Glynhebog.

11.1.2 ***Cynllun Gwella Tramwy CSC*** a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2008 (gwnaed cais am gymhorthdal ar gyfer y llwybr yn arwain o iard yr hen orsaf at Longwood; gwneud gwellianau i'r llwybr Forest Walk/Heol y Wîg a gwella cyflwr y llwybr Gwêl y Creuddyn i Aberaeron Cyfeirnod 61/16): yn ôl y Cyngor Sir nid yw'r llwybrau dan sylw wedi eu cofrestru fel Llwybrau Cerdded Swyddogol ac fel canlyniad nid yw'n bosibl i'r Cyngor Sir i ymgymryd â gwelliannau.

11.1.3 Parc-yr-Orsedd: Mae'r Cyngor Tref yn dal i aros am gloriau newydd ar gyfer y biniau. Bydd bwlbiau Cennin Pedr, sy'n weddill gan y Cyngor Sir Ceredigion, yn cael eu gadael ym Mharc-yr-Orsedd cyn bo hir.

11.2 CTCC

11.2.1 Adroddiad Misol ar gyfer Ebrill CSC: bu yna 6 cais gan yr heddlu i edrych ar ddeunydd digidol yn ymwneud â chyflymder gormodol; gwedduster cyhoeddus gormesol; 2 ymosodiad, cadw rheolaeth ar y cyhoedd a difrod troseddol. Ni adroddwyd unrhyw nam ar y camerau.

11.3 Palmantau

11.3.1 Adroddwyd fod problemau'n bodoli ar y palmant ger Neuadd Burgess a fod y namau heb eu hatgyweirio ar y palmant rhwng Siop Gwilym Price a'r Spar: I adrodd at sylw'r Cyngor Sir.

11.3.2 Palmatau ar Stryd y Bont: llythyr gan y Cyngor Sir yn diolch i'r CT am eu sylwadau positif yn ymwneud â'r gwiath newydd orffenedig ar balmantau Stryd y Bont. Ynglŷn â'r gofid parthed y sefyllfa ddraenio, mynegwyd nad yw'r system ddraenio newydd wedi gostwng y safon ond yn hytrach, gan amlaf wedi codi'r safon. Un o'r ffactorau pennaf yn ystod y dyluniad oedd cadw dŵr oddi ar eiddo/tai/adeiladau. Mae'r cynllun a ddewiswyd wedi caniatau ymestyn lled y palmant heb gostyngiad yn nyfnder cwymp y palmant at gyfeiriad yr heol ac felly'n galluogi yr un cyfaint o ddŵr i redeg i ffwrdd o'r tai/adeiladau, fel o'r blaen.

11.4 Yr Iaith Gymraeg

Y mae'r ffurflen wedi ei llunio gan y Cyng. Phillips ar gyfer darpar ymgeiswyr grantiau, sy'n cael eu cyfrannu dan law'r Cyngor Tref.

12. U.F.A.

12.1 Teras Greenfield: mae dŵr yr arwyneb yn rhedeg o gyfeiriad yr ysgol ac yn achosi problemau draenio yn Nheras Greenfield: i adrodd at sylw'r Cyngor Sir.

12.2 Penderfynwyd anfon llythyr at Glwb Rygbi Llambed yn eu llongyfarch ar gyrraedd y rownd derfynol SWALEC yn Stadiwm y Mileniwm.

12.3 Hefyd i longyfarch Clwb Pêl Droed Llambed ar ennill y Gynghrair Ceredigion.

12.4 Cytunwyd i gyflwyno tarian i Mrs Janet Evans yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Tref fel cydnabyddiaeth o'i gwasanaeth i'r Cambrian News ac Aelwyd yr Urdd Llambed. Adroddwyd fod Mrs Evans wedi cipio'r Tlws Cydnabyddiaeth Gwirfoddoli Ceredigion 2009 CAVO'n ddiweddar. Enwebwyd Mrs Evans gan y Cyngor Tref. Cynhelir y Seremoni Wobrwyo ar ddechrau Mehefin.

12.5 Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir tybed a fyddai'n bosibl iddynt lanhau/glirio tu allan i Lys Idwal a Llys Pedr.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, daeth y Cyfarfod i ben am 10.05pm.

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Nos lau 25ain o Fehefin am 7.30pm yn Neuadd yr Eglwys San Pedr.

----------(Cadeirydd & Dyddiad)